Atodiad 1

## Dadansoddi Risgiau

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| TEBYGOLRWYDD | 5 Bron yn sicr | 5 | 10 | 15 | 20 | 25 |
| | 4 Tebygol | 4 | 8 | 12 | 16 | 20 |
| | 3 Posibl | 3 | 6 | 9 | 12 | 15 |
| | 2 Annhebygol | 2 | 4 | 6 | 8 | 10 |
| | 1 Annhebygol iawn | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 |
| | | 1 Dibwys | 2 Mân | 3 Cymhedrol | 4 Arwyddocaol | 5 Mawr |
| | | CANLYNIAD | | | | |


## Graddfa blaenoriaethau risg

| Gwerth | Graddfa blaenoriaeth |
|---|---|
| 20-25 | Uchel iawn - risg yn annioddefol o uchel |
| 12-16 | Uchel - risg yn sylweddol |
| 8-10 | Uchel canolig - risg yn gymedrol |
| 4-6 | Isel canolig - risg ddim yn rhy ddrwg |
| 1-3 | Isel |

**Atodiad 2**

**Y Gofrestr Risgiau Strategol ar 10/05/2021**

I. Mae'r siart isod yn dangos y lefelau presennol a'r lefelau yn y dyfodol o ran y risgiau strategol hysbys sy'n wynebu'r Awdurdod.




II. <u>Risg uchel iawn</u>
Canfuwyd bod tri risg yn golygu risg uchel iawn i'r Awdurdod, mae'r rhain yn ymwneud â:

- risg o ymosodiad ar systemau cyfrifiadurol y Gwasanaeth;
- y gallu i ddarparu gwasanaethau craidd neu recriwtio a hyfforddi staff newydd yn ddigon cyflym i gynnal y ddarpariaeth bresennol pe byddai pandemig fiarol, megis y coronafeirws;
- lefel y cadernid petai, yn sydyn, yn colli aelod o staff sydd â gwybodaeth arbenigol a/neu brofiad o fusnes y Gwasanaeth.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau rhagwelir y bydd y rhain yn gostwng i lefel risg uchel.

III. <u>Risg uchel</u>
Canfuwyd bod deg risg yn golygu risg uchel i'r Awdurdod. Yn gryno, heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- camddefnyddio asedau yn derfysgol a/neu yn droseddol;
- lleihad annisgwyl (yn barhaol neu'n lled-barhaol) yn y staff, gan effeithio ar y gallu i ymateb mewn argyfwng;

- dim digon o arian neu adnoddau i ddarparu gwasanaethau craidd neu i gynnal systemau risg-gritigol;
- methu â sicrhau digon o adnoddau gweithredol;
- gallu'r Gwasanaeth i ddelio â beichiau ychwanegol (o'r tu allan);
- y posibilrwydd o dorri'r gyfraith mewn perthynas â data personol o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol;
- tarfu ar berthnasoedd a sefydlwyd gyda phartneriaid o lywodraeth leol;
- effaith proffil gweithlu sy'n heneiddio;
- pwysigrwydd cael gweithlu ffit ac iach i ddarparu gwasanaethau;
- cynnal y gallu i ddarparu gwybodaeth am risgiau i staff gweithredol yn electronig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y bydd dau yn parhau i olygu risg uchel iawn, bydd pump yn gostwng i lefel canolig uchel, bydd dau yn gostwng i lefel canolig isel a bydd un yn cael ei ailgategoreiddio'n risg lefel isel.

IV. <u>Risg canolig uchel</u>

Canfuwyd chwech risg canolig uchel. Yn gryno a heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: effaith newidiadau i drefniadau llywodraethu'r ATAau yng Nghymru; anaf difrifol i aelod o staff tram ae yn y gwaith; oedi yn y prosiect cysylltiadau cenedlaethol arfaethedig; dim digon o arian grant i barhau i ddarparu gweithgareddau atal tân; y risgiau anochel sy'n gysylltiedig ag arallgyfeirio gwasanaethau a chymryd rhan mewn prosiectau partneriaethol a chynnal cysondeb gweithredol gyda Gwasanaethau Tân ac Achub eraill yn y Deyrnas Unedig.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, rhagwelir y byddai pedwar yn parhau i olygu lefel risg canolig uchel, a byddai dau yn gostwng i lefel risg canolig isel.

V. <u>Risg canolig isel</u>

Canfuwyd pedwar risg canolig isel. Yn gryno a heb fod mewn unrhyw drefn benodol, mae'r rhain yn ymwneud â'r canlynol: penderfyniadau aneffeithiol neu ddiffygiol ar lefel Awdurdod; cyfathrebu corfforaethol aneffeithiol; methu â rhagweld a delio â phroblemau mewn da bryd; a'r effaith ar ddarparu gwasanaethau oherwydd streic neu weithredu diwydiannol.

Drwy gynllunio gwrth-fesurau, byddai tri o'r risgiau hyn yn parhau i olygu risg canolig isel, a byddai un yn gostwng i risg lefel isel.